**Gwrandawiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint i honiadau'n ymwneud ag ymddygiad y Cynghorydd Charles Cordery o Gyngor Tref Bwcle - Cyfeirnod Achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 202105656**
**Penderfyniadau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint gyda rhesymau ysgrifenedig**

1. **Cyflwyniad**

1.1 Cynhaliwyd gwrandawiad o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint ("y Pwyllgor Safonau") ar 30 Medi 2024 a 21 Hydref 2024 i ystyried yr honiadau bod y Cynghorydd Cordery o Gyngor Tref Bwcle wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac i roi cyfle i'r Cynghorydd Cordery wneud sylwadau mewn perthynas â hyn.

1.2 Honnwyd bod y Cynghorydd Cordery wedi galw am ymddiswyddiad cyn aelod o staff Cyngor Tref Bwcle yn ystod cyfarfod y Cyngor, lle'r oedd cynghorwyr, staff a'r cyhoedd yn bresennol ac roedd hyn yn erbyn y cyngor a roddwyd i'r Cynghorydd Cordery gan y Swyddog Monitro.

1.3 Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") wedi trefnu ymchwiliad i'r honiadau, yn unol â'i phwerau o dan adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac roedd wedi llunio adroddiad ar yr ymchwiliad. Roedd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio ei hadroddiad at Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir y Fflint a oedd wedi adrodd i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint.

1.4 Cynhaliwyd y gwrandawiad yn unol â'r weithdrefn a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â chwynion sy'n honni bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri gan aelodau Cyngor Sir y Fflint ac aelodau cynghorau tref a chymuned o fewn Sir y Fflint sy'n cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro neu Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol gan yr Ombwdsmon.

1.5 Roedd y Cynghorydd Cordery yn bresennol yn y gwrandawiad ar 30 Medi 2024 ond nid ar 21 Hydref 2024. Roedd y Cynghorydd Carol Ellis yn bresennol yn y gwrandawiad ar 30 Medi 2024 a'r gwrandawiad ar 21 Hydref 2024 i gefnogi'r Cynghorydd Cordery ac i wneud sylwadau ar ei ran,

1.6 Roedd Louise Morland o Swyddfa'r Ombwdsmon yn bresennol yn y gwrandawiad ar 30 Medi 2024 a 21 Hydref 2024. Roedd Gwydion Hughes yn bresennol ar 30 Medi 2024 a 21 Hydref 2024 ac fe wnaeth sylwadau ar ran yr Ombwdsmon.

2. **Canfyddiadau o'r Ffeithiau**

**Ffeithiau y Cytunwyd Arnynt**

Cytunwyd ar y ffeithiau canlynol gan y partïon cyn y gwrandawiad:

2.1 Etholwyd y Cynghorydd Cordery fel aelod o Gyngor Tref Bwcle ym mis Mai 2021.

2.2 Cyn y digwyddiadau yn 2021 sy'n destun y gŵyn, nid oedd y Cynghorydd Cordery wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Cwblhaodd y Cynghorydd Cordery hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ym mis Mai 2022.

2.3 Bu i'r Cynghorydd Cordery a chyn Glerc Cyngor Tref Bwcle gyfnewid e-byst yn yr Haf 2021 am ganslo digwyddiadau a phryder y Cynghorydd Cordery ynglŷn â gweithdrefnau'r Cyngor. Arweiniodd hyn at y negeseuon yn cael eu hystyried yng nghyfarfod Is-bwyllgor Sefydlu'r Cyngor ym mis Medi 2021 a'r Cynghorydd Cordery yn derbyn llythyr yn ei gynghori i gymedroli ei ddull cyfathrebu.

2.4 Gwnaed sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â chanslo'r sioe tân gwyllt. (Nodwch: Y sioe dan sylw yw'r sioe flynyddol y cyfeirir ati ym mharagraff 2.14 o benderfyniadau'r Pwyllgor Safonau ar ffeithiau sy'n destun dadl isod).

2.5 Ar 15 Hydref 2021, fe alwodd cyn Glerc Cyngor Tref Bwcle gyfarfod arbennig y Cyngor. Cyhoeddwyd rhaglen ar wefan y Cyngor a oedd yn cyfeirio at sylwadau gan "keyboard warriors".

2.6 Bu i'r cyfeiriad at "keyboard warriors" yn y rhaglen beri pryder yn lleol.

2.7 Ar fore 20 Hydref 2021, fe anfonodd y cyn Glerc e-bost at bob aelod o Gyngor Tref Bwcle a oedd yn gofyn iddynt ystyried ei esboniad yn defnyddio'r term "keyboard warriors".

2.8 Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Tref Bwcle ar-lein ar 20 Hydref 2021. Roedd aelodau'r Cyngor, y cyn Glerc, dau gynorthwy-ydd staff, contractwr, gweinyddwr y cyfarfod a'r cyhoedd yn bresennol.

2.9 Ar 22 Hydref 2021, fe aeth y cyn Glerc ar absenoldeb salwch.

2.10 Ar 25 Hydref 2021, cyhoeddwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref ar wefan Cyngor Tref Bwcle. Roedd y cofnodion hynny yn cynnwys y sylw: *"That individual, I will say now, should offer his resignation with immediate effect".*

2.11 Ar 28 a 29 Hydref 2021, heriodd y Cynghorydd Cordery y cofnodion drafft.

2.12 Yng nghyfarfod Cyngor Tref Bwcle ar 2 Mawrth 2022, cynigodd y Cynghorydd Cordery y dylid diwygio geiriad y cofnodion o *"should offer his resignation"*, i *"should offer their resignation"*. Cytunwyd ar y newid. Cymeradwywyd y cofnodion diwygiedig gan Gyngor Tref Bwcle ar 7 Mehefin 2022.

2.13 Bu farw cyn Glerc Cyngor Tref Bwcle ym mis Mai 2022.

**Penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau ar y Ffeithiau a oedd yn Destun Dadl**

Gwnaed y canfyddiadau canlynol gan y Pwyllgor Safonau ynglŷn â ffeithiau a oedd wedi bod yn destun dadl rhwng y partïon:

2.14 Canslodd y Cyngor y digwyddiad tân gwyllt blynyddol yn 2021 yn sgil cyflwyno canllawiau Covid-19 diwygiedig.

**Rhesymau:** Awgrymodd y Cynghorydd Cordery bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud gan y cyn Glerc yn hytrach na'r Cyngor. Canfu'r Pwyllgor Safonau nad oedd tystiolaeth bod y penderfyniad wedi cael ei wneud gan y Clerc. Darganfu'r Pwyllgor bod tystiolaeth i gefnogi canfyddiad bod y tân gwyllt wedi cael eu canslo gan y Cyngor. Cyn dod i'r casgliad hwn, roedd y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i dystiolaeth ysgrifenedig ym mhecyn y gwrandawiad: y rhaglen ar gyfer cyfarfod Cyngor Tref Bwcle ar 20 Hydref 2021 ar dudalen 257,

y sylw yn y rhaglen a oedd yn datgan nad Clerc y Cyngor Tref a'r Swyddog Cyllid oedd yn penderfynu p'un a oedd y dewis i ganslo yn cael ei wyrdroi neu beidio ar dudalen 259, a'r e-bost gan Glerc Cyngor Tref Bwcle i'r Swyddog Monitro ar dudalen 274. Ni heriodd y Cynghorydd Cordery y rhaglen. Wrth iddo gael ei gwestiynu yn ystod y gwrandawiad, dywedodd y Cynghorydd Cordery nad oedd yn gallu dadlau'n groes i'r dystiolaeth hon ac nad oedd yn gallu cadarnhau ei honiad mai'r cyn Glerc oedd wedi canslo'r tân gwyllt. Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Peers dystiolaeth ar lafar gan ddatgan nad oedd unrhyw un wedi ymgynghori ag ef yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Cyngor Tref Bwcle ond nid oedd y Pwyllgor yn ystyried hynny'n berswadiol o ran y ffaith a oedd yn destun dadl, yn enwedig yn wyneb tystiolaeth arall.

2.15 Ar 18 Hydref 2021, cafodd y Cynghorydd Cordery drafodaeth gyda'r Swyddog Monitro ac yn ystod y drafodaeth honno rhoddodd y Swyddog Monitro gyngor i'r Cynghorydd Cordery.

**Rhesymau:** Roedd tystiolaeth y Swyddog Monitro mewn perthynas â'r pwynt hwn yn berswadiol. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod tystiolaeth y Swyddog Monitro wedi'i chefnogi gan nodyn cyfoes o'i drafodaeth gyda'r Cynghorydd Cordery a'r ffaith bod tystiolaeth lafar y Swyddog Monitro yn y gwrandawiad yn cadarnhau'r cyngor a roddodd i'r Cynghorydd Cordery ac yn cael ei rhoi ar brawf drwy gwestiynau gan gynrychiolydd y Cynghorydd Cordery a'r Pwyllgor Safonau. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y ffaith fod y Cynghorydd Cordery wedi cysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor ac wedi ei ystyried yn rhesymol i ddod i'r casgliad y byddai'r Swyddog Monitro wedi darparu cyngor o dan yr amgylchiadau hynny. Cyfeiriodd y Cynghorydd Cordery at y ffaith nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ond nid oedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried hynny fel rheswm pam na fyddai'r Swyddog Monitro wedi rhoi cyngor i'r Cynghorydd Cordery.

2.16 Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cynghorydd Cordery, trefnodd y Swyddog Monitro i siarad gyda chyn Glerc Cyngor Tref Bwcle ar 21 Hydref 2021.

**Rhesymau:** Ni ddadleuodd y Cynghorydd Cordery bod y Swyddog Monitro wedi trefnu i siarad gyda chyn Glerc Cyngor Tref Bwcle - dim ond y dyddiad y cynhaliwyd y sgwrs. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi rhoi ystyriaeth i dystiolaeth ysgrifenedig ym mhecyn y gwrandawiad: yn cynnwys e-bost gan y Swyddog Monitro i'r cyn Glerc ar dudalen 186 lle'r oedd y Swyddog Monitro yn cyfeirio at gytuno gyda'r Cynghorydd Cordery gan ddweud y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Swyddog Monitro yn gallu siarad gyda'r cyn Glerc, a pharagraffau 7 ac 8 o ddatganiad y Swyddog Monitro ar dudalen 340, a oedd yn cyfeirio at drefniadau yn cael eu gwneud i'r Swyddog Monitro siarad gyda'r cyn Glerc ar 21 Hydref.

2.17 Ar ddechrau cyfarfod Cyngor Tref Bwcle ar 20 Hydref 2021, dechreuodd y Maer drwy ddarllen datganiad ynglŷn â'r geiriau yn y rhaglen a oedd wedi peri tramgwydd a dywedodd na fyddai'r mater cael ei drafod mewn sesiwn agored ac y byddai'n rhaid gweithredu Rheol Sefydlog 33(a) i wahardd y wasg a'r cyhoedd cyn trafod hynny.

**Rhesymau:** Roedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y cofnodion a gymeradwywyd o gyfarfod Cyngor Tref Bwcle ar 2 Mawrth 2022 (ar dudalen 312 y pecyn) fel tystiolaeth gymhellol a benderfynodd ddiwygio cofnodion drafft cyfarfod arbennig Cyngor Tref Bwcle ar 20 Hydref 2021. Roedd y cofnodion diwygiedig hynny yn nodi bod y Maer wedi dechrau darllen datganiad a dweud

y byddai'n rhaid gweithredu'r Rheol Sefydlog a enwyd uchod. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y Cynghorydd Cordery wedi cynnig a chymeradwyo'r diwygiad i'r cofnodion drafft. Nodwyd hefyd o'r dystiolaeth a ddarparwyd ym mhecyn y gwrandawiad bod aelodau eraill yn cymeradwyo'r diwygiad.

2.18 Tra roedd y Maer yn siarad, fe alwodd y Cynghorydd Cordery am Bwynt o Drefn ac yna cyfeiriodd at faterion yn cael eu cuddio, gan ddefnyddio'r termau *"a cover up"* ac *"a smoke screen".* Mynnodd fod yr unigolyn dan sylw yn ymddiswyddo a galwodd am *"resignation with immediate effect".*

**Rhesymau:** Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i'r ffaith fod y geiriau hyn wedi'u nodi yn y cofnodion wedi'u cymeradwyo o gyfarfod arbennig Cyngor Tref Bwcle ar 20 Hydref 2021 a bod y Cynghorydd Cordery wedi'u cynnig a'u cymeradwyo. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau bod hyn wedi'i gefnogi ymhellach gan y ffaith fod cynrychiolydd y Cynghorydd Cordery (y Cynghorydd Carol Ellis), yn ei chrynodeb o'r dystiolaeth yn y gwrandawiad ar 21 Hydref 2024, wedi cadarnhau bod y Cynghorydd Cordery wedi defnyddio'r geiriau hynny. Nododd y Pwyllgor Safonau hefyd bod y Cynghorydd Cordery, yn ystod ei gyfweliad fel rhan o ymchwiliad yr Ombwdsmon, wedi cadarnhau ei fod wedi gwneud y sylwadau hyn. Cofnodwyd hyn yn y cofnod o gyfweliad y Cynghorydd Cordery ar dudalen 476 o becyn y gwrandawiad. Cadarnhawyd gan dystion eraill eu bod wedi clywed y Cynghorydd Cordery yn defnyddio'r gair *"resign".*

2.19 Cysylltodd y Swyddog Monitro gyda'r cyn Glerc ar 21 Hydref 2021.

**Rhesymau:** Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i ddatganiad y Swyddog Monitro a oedd yn cyfeirio at gael cyfarfod gyda'r cyn Glerc a'r ffaith fod hyn wedi'i gefnogi gan nodiadau ysgrifenedig cyfoes a wnaed gan y Swyddog Monitro. Nododd y Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Cordery wedi dweud nad oedd yn ymwybodol o'r cyfarfod hwnnw felly ni allai gadarnhau os yr oedd wedi digwydd ond ni wnaeth gyflwyno tystiolaeth i'r gwrthwyneb neu herio'r dystiolaeth a oedd yn cefnogi canfyddiad bod cyfarfod o'r fath wedi'i gynnal.

2.20 Ar 21 a 25 Hydref 2021, anfonodd y cyn Glerc ac aelodau o Gyngor Tref Bwcle gwynion at y Swyddog Monitro ynglŷn ag ymyrraeth y Cynghorydd Cordery yn y cyfarfod.

**Rhesymau:** Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i'r dystiolaeth glir ym mhecyn y gwrandawiad bod cwynion yn erbyn ymyrraeth y Cynghorydd Cordery. Nododd y Pwyllgor bod rhai o'r cwynion yn cyfeirio at faterion eraill ond daeth i'r casgliad nad oedd hyn yn newid y ffaith bod cwynion wedi'u gwneud am ymddygiad y Cynghorydd Cordery.

2.21 Dywedodd y Cynghorydd Cordery y dylai'r Swyddog Monitro aros tan ar ôl y cyfarfod cyhoeddus i siarad gyda'r cyn Glerc.

**Rhesymau:** Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i ddatganiad tyst y Swyddog Monitro, a oedd yn nodi ar dudalennau 339 a 340 ym mhecyn y gwrandawiad, bod y Cynghorydd Cordery wedi dweud y dylid aros tan ar ôl y cyfarfod ar 20 Hydref 2021. Roedd y Swyddog Monitro wedi cadarnhau hyn mewn tystiolaeth lafar a chadarnhau hyn ymhellach drwy gwestiynau gan y Pwyllgor Safonau. Nid oedd y Cynghorydd Cordery wedi darparu unrhyw dystiolaeth i ddadlau'n groes i dystiolaeth y Swyddog Monitro ar gyfer hyn, ond

pwysleisiodd nad oedd yn cofio dweud wrth y Swyddog Monitro i aros tan ar ôl y cyfarfod cyhoeddus.

2.22 Anwybyddodd y Cynghorydd Cordery y cyngor gan y Swyddog Monitro am ddilyn y gweithdrefnau cywir wrth godi materion cyflogaeth.

**Rhesymau:** Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Swyddog Monitro wedi rhoi cyngor i'r Cynghorydd Cordery (gweler paragraff 2.15 uchod am benderfyniadau'r Pwyllgor Safonau ar y ffeithiau a oedd yn destun dadl) a bod y Cynghorydd Cordery wedi defnyddio'r geiriau *"a cover up"* ac *"a smoke screen"* ac wedi galw am ymddiswyddiad ar unwaith (gweler paragraff 2.18 uchod am benderfyniadau'r Pwyllgor Safonau ar y ffeithiau a oedd yn destun dadl). Felly, ystyriodd y Pwyllgor Safonau bod yn rhaid iddo ddod i'r casgliad bod y Cynghorydd Cordery wedi anwybyddu'r cyngor gan y Swyddog Monitro am ddilyn y gweithdrefnau cywir wrth godi materion cyflogaeth.

2.23 Roedd yr alwad a wnaeth y Cynghorydd Cordery ynglŷn ag ymddiswyddo yn cyfeirio'n benodol at y cyn Glerc.

**Rhesymau:** Ystyriodd y Pwyllgor Safonau'r sylwadau a wnaed mewn datganiadau tystion o ran y geiriau penodol a ddefnyddiwyd yn y cyfarfod ar 20 Hydref 2021, gan gydnabod nad oedd yn syndod bod atgofion yn amrywio, er hynny roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi deall bod y Cynghorydd Cordery yn cyfeirio at y cyn Glerc. Cydnabu'r Pwyllgor Safonau bod y cofnodion a gymeradwywyd, sef y cofnod swyddogol o'r cyfarfod, yn defnyddio term niwtral o ran rhywedd. Waeth beth oedd yr union eiriau a ddefnyddiwyd, roedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried bod galwad y Cynghorydd Cordery am ymddiswyddiad wedi cyfeirio at y cyn Glerc yn benodol. Cefnogwyd hyn gan dystiolaeth bod y Cynghorydd Richard Jones wedi cysylltu â'r cyn Glerc oherwydd ei fod yn pryderu amdano yn dilyn y cyfarfod.

## 3. Penderfyniad ynghylch p'un a oes achos o dorri'r Cod Ymddygiad wedi digwydd

3.1 Ar ôl ystyried y ffeithiau a gadarnhawyd mewn perthynas â'r honiadau yn erbyn y Cynghorydd Cordery, penderfynodd y Pwyllgor Safonau:

(a) Bod y Cynghorydd Cordery wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) y Cod Ymddygiad: Dylech ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau nad oedd y Cynghorydd Cordery wedi dangos parch tuag at eraill ond yn hytrach wedi ceisio gosod ei ewyllys ei hun arnynt. Roedd wedi tanseilio swydd cyn Glerc Cyngor Tref Bwcle drwy fynnu'n gyhoeddus ei fod yn ymddiswyddo, heb gyfeirio at gynghorwyr eraill. Roedd hefyd wedi mynd yn erbyn y gweithdrefnau cyflogaeth, er ei fod yn swyddog undeb llafur profiadol. Cydnabu'r Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Cordery yn credu ei fod yn gweithredu er budd preswylwyr a'i fod eisiau cael ei weld fel yr unigolyn wnaeth ddatrys y pryder ynghylch canslo'r tân gwyllt a'r defnydd o'r term "keyboard warriors". Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn deall yr anawsterau yr oedd y Cynghorydd Cordery yn eu hwynebu fel cynghorydd newydd yn 2021. Roedd effaith Covid 19 yn golygu mai ychydig iawn o gyswllt wyneb yn wyneb oedd yn digwydd gyda swyddogion a chynghorwyr eraill ac efallai bod cyfleoedd i gael

mynediad at hyfforddiant yn fwy prin nag yr oeddent yn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried bod y ffactorau hyn yn cyfiawnhau'r diffyg parch a ddangoswyd gan y Cynghorydd Cordery. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i hawl y Cynghorydd Cordery i ryddid mynegiant dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ond ystyriodd ei bod yn angenrheidiol i gydbwyso hyn yn erbyn hawliau'r Cyn Glerc ar adeg yr ymddygiad a oedd yn destun yr honiadau yn erbyn y Cynghorydd Cordery, ac wrth symud ymlaen, yn erbyn hawliau eraill.

(b) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi mynd yn groes i baragraff 8(a)(iii): Wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich Awdurdod, dylech wneud hynny'n seiliedig ar deilyngdod yr amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw gyngor perthnasol a ddarparwyd gan Swyddogion eich Awdurdod, yn enwedig gan - (iii) Swyddog Monitro'r Awdurdod.

Nododd y Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Cordery wedi ceisio a derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ond roedd wedi gweithredu i'r gwrthwyneb o'r cyngor hwnnw drwy alw ar gyn Glerc Cyngor Tref Bwcle i ymddiswyddo mewn cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd. Dywedodd y Cynghorydd Cordery yn ei gyfweliad yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon efallai y byddai wedi ymddwyn yn wahanol pe bai wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ond roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn y dylai bod diffyg profiad a hyfforddiant y Cynghorydd Cordery wedi'i wneud yn fwy parod i ddilyn a gweithredu yn unol â'r cyngor a roddwyd iddo gan y Swyddog Monitro.

4. **Penderfyniad o ran cosbau**

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed ar ran y Cynghorydd Cordery a'r Ombwdsmon ynghylch os dylid cosbi'r Cynghorydd Cordery am dorri'r Cod Ymddygiad. Rhoddodd y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i ddifrifoldeb yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad, yn enwedig y methiant i ddilyn cyngor y Swyddog Monitro a'r canllawiau gan Banel Dyfarnu Cymru a ddywedodd y dylid ystyried diffyg parch llwyr tuag at gyngor swyddog monitro fel achos difrifol iawn o dorri'r rheolau.

4.2 Ystyriodd y Pwyllgor Safonau yr holl gosbau posibl yr oedd ar gael iddo a daeth i'r casgliad y byddai peidio â chymryd unrhyw gamau neu geryddu'r Cynghorydd Cordery yn annigonnol i fynd i'r afael â difrifoldeb ymddygiad y Cynghorydd Cordery.

4.3 Nododd y Pwyllgor Safonau y ffactorau lliniarol canlynol:

(a) Ar adeg yr achos o dorri'r Cod Ymddygiad, roedd y Cynghorydd Cordery yn eithaf newydd i'w swydd fel cynghorydd.

(b) Ar adeg yr achos dorri'r Cod Ymddygiad, roedd y Cynghorydd Cordery yn eithaf di-brofiad yn ei rôl fel cynghorydd.

4.4 Nododd y Pwyllgor Safonau y ffactorau gwaethygol canlynol:

(a) Er yr oedd y Cynghorydd Cordery yn eithaf di-brofiad fel cynghorydd ar adeg yr achos o dorri'r Cod Ymddygiad, roedd tystiolaeth ym mhecyn y

gwrandawiad yn nodi ei fod yn swyddog undeb llafur profiadol iawn ar yr adeg hon.

(b) Ceisiodd y Cynghorydd Cordery roi bai ar eraill am ei weithredoedd. Roedd y Pwyllgor Safonau yn cydnabod nad oedd y Cynghorydd Cordery wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar adeg y digwyddiad ond roedd yn ystyried y byddai wedi gallu cymryd camau i sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau mewn perthynas â'i ymddygiad fel cynghorydd. Byddai wedi gallu ceisio mynediad at hyfforddiant ar-lein, darllen y deunydd a ddarparwyd iddo pan ddaeth yn gynghorydd a dilyn y cyngor a roddwyd iddo gan y Swyddog Monitro a chyn Glerc Cyngor Tref Bwcle. Roedd y Cynghorydd Cordery wedi gwneud datganiad derbyn swydd lle ddywedodd y byddai'n cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Roedd geiriau a gweithredoedd y Cynghorydd Cordery yn dangos ei fod yn ystyried mai cyfrifoldeb eraill oedd sicrhau ei fod yn gallu cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau o dan y Cod.

(c) Dangosodd y Cynghorydd Cordery ddiffyg dealltwriaeth bod ei ymddygiad yn anghywir a diffyg dealltwriaeth o ganlyniadau ei ymddygiad.

(d) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi ymddwyn yn fwriadol ac nid oedd wedi dangos unrhyw bryder ynghylch y Cod Ymddygiad.

(e) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi anwybyddu cyngor mewn perthynas â'i ymddygiad ar bwrpas. Canfu'r Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Cordery wedi derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ond ei fod wedi ymddwyn i'r gwrthwyneb. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau ganllawiau gan Banel Dyfarnu Cymru a oedd yn cynghori y dylid ystyried diffyg parch llwyr tuag at gyngor swyddog monitro fel achos difrifol iawn o dorri'r rheolau.

(f) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi mynegi safbwyntiau a oedd yn anghydnaws â hawliau eraill. Cydnabu'r Pwyllgor, pan oedd y Cynghorydd Cordery yn gwneud sylwadau gwleidyddol, fod ganddo amddiffyniad uwch o ran ei hawl i ryddid mynegiant dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod ei bod yn gyfiawn i amharu ar hawl unigolyn o dan Erthygl 10 pan fo hyn yn angenrheidiol i atal ymyrraeth â hawliau eraill. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau bod ymddygiad y Cynghorydd Cordery wedi ymyrryd â hawliau cyn Glerc Cyngor Tref Bwcle.

(g) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi gwrthod derbyn y ffeithiau er gwaethaf y dystiolaeth glir i'r gwrthwyneb. Roedd y Cynghorydd Cordery wedi siarad am faterion cyflogaeth cyfrinachol mewn cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd ac nid oedd wedi dilyn y prosesau cyflogaeth priodol, er gwaethaf y cyngor gan y Swyddog Monitro a oedd yn argymell na ddylai siarad am faterion cyflogaeth cyfrinachol mewn cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd.

(h) Roedd y Cynghorydd Cordery wedi methu gwrando ar gyngor a rhybuddion am ei ymddygiad. Nododd y Pwyllgor Safonau bod y Cynghorydd Cordery wedi derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ond ei fod wedi ymddwyn i'r gwrthwyneb. Roedd y Cynghorydd Cordery

hefyd wedi derbyn cyngor gan gyn Glerc Cyngor Tref Bwcle ond roedd wedi ymddwyn i'r gwrthwyneb. Roedd Maer Cyngor Tref Bwcle wedi ceisio rhoi cyngor i aelodau'r Cyngor yn y cyfarfod ar 21 Hydref 2021, ond roedd y Cynghorydd Cordery wedi gwrthod rhoi'r gorau i siarad er mwyn caniatáu i'r Maer gael siarad. Nododd y Pwyllgor Safonau hefyd, cyn y digwyddiad lle canfuwyd bod y Cynghorydd Cordery wedi torri'r Cod Ymddygiad, bod Maer Cyngor Tref Bwcle wedi ysgrifennu at y Cynghorydd Cordery i ofyn iddo gymedroli ei ddull cyfathrebu. Fel aelod o Gyngor Tref Bwcle, roedd hefyd wedi derbyn gohebiaeth gan gyn Glerc y Cyngor.

4.5 Ar ôl pwyso a mesur y ffactorau lliniarol a gwaethygol yn ymwneud ag ymddygiad y Cynghorydd Cordery, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid rhoi y gosb ganlynol i'r Cynghorydd Cordery:

(a) Dylid gwahardd y Cynghorydd Cordery rhag bod yn aelod o Gyngor Tref Bwcle am gyfnod o chwe mis.

Yn unol â Rheoliad 8 y Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, bydd cyfnod y gwaharddiad yn dechrau ar y diwrnod ar ôl:

(i) I'r amser a ganiateir i gyflwyno hysbysiad o apêl ddod i ben.

(ii) Os caiff apêl ei chyflwyno, ar ôl derbyn hysbysiad bod unrhyw apêl wedi dod i ben.

(iii) Os caiff apêl ei chyflwyno ac os yw tribiwnlys apeliadau'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad bod cosb wahanol yn cael ei rhoi, penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau

pa bynnag un sy'n digwydd ddiwethaf.

4.6 Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau yr argymhellion canlynol hefyd:

(a) Dylai pob cyngor tref a chymuned yn Sir y Fflint sicrhau fod cynghorwyr yn ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn y tri mis cyntaf o gael eu penodi neu'u hethol.

(b) Dylai unrhyw gyngor tref neu gymuned, sydd heb lofnodi'r Addewid Cwrteisi a Pharch, ystyried gwneud hynny a thrafod ei weithrediad o fewn gweithgareddau'r cyngor.

(c) Dylai pob cyngor tref a chymuned yn Sir y Fflint wirio bod cyfarfodydd sefydlu cynghorwyr newydd yn sicrhau bod y cynghorwyr yn deall popeth o fewn rheolau sefydlog eu cyngor.

(d) Dylai Cyngor Tref Bwcle gynnig hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad i'r holl aelodau.

5. **Hysbysiad o Benderfyniad**

5.1 Yn unol â Rheoliad 9 y Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, hysbysir yr unigolion canlynol ynghylch penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau:

(a) Y Cynghorydd Cordery oherwydd ei ymddygiad ef sydd dan sylw yn yr ymchwiliad.

(b) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae Rheoliad 9 hefyd yn nodi y dylid hysbysu'r unigolyn a wnaeth yr honiad. Nid yw hyn yn bosibl oherwydd bod yr unigolyn hwnnw wedi marw.

6. **Hawl i Apelio**

6.1 Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001, mae gan y Cynghorydd Cordery yr hawl i geisio caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.

6.2 Os yw'r Cynghorydd Cordery yn dymuno ceisio caniatâd i apelio, mae'n rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig, o fewn 21 diwrnod i gael gwybod am y penderfyniad, i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Mae'n rhaid i'r hysbysiad sy'n ceisio caniatâd i apelio nodi sail yr apêl ac os yw'r Cynghorydd Cordery yn rhoi caniatâd i gynnal yr apêl neu beidio drwy sylwadau ysgrifenedig.

6.3 Gweler rhagor o fanylion ar wefan y Panel Dyfarnu

6.4 https://paneldyfarnu.llyw.cymru